

Eitem: 7

Teitl: Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwyniad

Ers ein cyfarfod bwrdd cyhoeddus diwethaf, rwyf wedi parhau i weithio gyda llawer o bartneriaid allweddol i siarad am ein rôl, llywio ein cynlluniau a'n ffyrdd o weithio, cyflawni ein hymrwymiaadau, mynd i'r afael â materion allweddol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a nodi sut y gallwn gydweithio i gryfhau llais pobl mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae manylion yr holl weithgareddau hyn ar gael ar gais.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ychydig o'r datblygiadau a'r gweithgareddau rydw i wedi bod yn rhan ohonynt ers y cyfarfod cyhoeddus llawn ddiwethaf y bwrdd ar 21 Mai 2025. Nid yw'r gweithgareddau a'r datblygiadau allweddol hyn wedi cael eu trafod yn fanylach mewn papurau eraill y Bwrdd.

Gweithio gyda'n partneriaid

Cryfhau lleisiau drwy ein partneriaeth strategol â'r Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth

Ers 2024, mae Llais wedi datblygu partneriaeth bwysig gyda'r Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth. Sefydlwyd y Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth gan Lywodraeth Cymru yn 2024 i helpu i wneud gofal cymdeithasol yn well i bawb. Mae'n canolbwyntio ar wella canlyniadau, mynediad at ofal a phrofiad defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r swyddfa'n gweithio dan arweinyddiaeth Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru.

Yn ei blwyddyn gyntaf, mae'r Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth wedi bod yn canolbwyntio ar osod y sylfaen a'i sefydlu ei hun i gyflawni ar gyfer y dyfodol. Nid yw wedi newid gofal dyddiol pobl yn sylfaenol eto, ond mae ei weithgareddau'n gosod y sylfeini gyda'r nod o'i alluogi i wneud hynny yn y blynyddoedd i ddod.

Yn ei flwyddyn gyntaf, mae wedi canolbwyntio ar 3 maes craidd:

- Cefnogi Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru
- Datblygu, gweithredu a chyflenwi parhaus Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol Cymru
- Gweithredu a rheoli'r Fframwaith Comisiynu Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth yng Nghymru yn barhaus.

Mae ei Hadroddiad Blynyddol cyntaf 2024-2025 ar gael yn y ddolen ganlynol [Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth: adroddiad blynyddol 2024 i 2025](#)

Mae Llais yn eistedd ar y Bwrdd Ymgynghorol ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ein prif ffocws wrth weithio gyda'r Swyddfa Genedlaethol fu gosod y sylfaen i lansio Fforwm y Bobl – i helpu i sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu hadeiladu i mewn i sylfeini a gwaith bob dydd y Swyddfa Genedlaethol. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, rydym wedi datblygu a chytuno ar drefniant cydweithredu yn ddiweddar rhwng y Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth a Llais, gyda'r egwyddorion canlynol yn sail i'n cydweithio:

Egwyddor 1:

Byddwn yn ystyried ein cyfrifoldebau statudol ac anstatudol priodol ac yn parchu statws annibynnol ein gilydd.

Egwyddor 2:

Ein ffocws cyffredin yw sicrhau bod lleisiau pobl Cymru yn hanfodol i ddylunio, datblygu a darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar bobl.

Egwyddor 3:

Byddwn yn rhoi sylw dyledus i argymhellion sy'n deillio o ymholiadau ac adolygiadau i wella gwasanaethau i bobl Cymru.

Egwyddor 4:

Bydd ein penderfyniadau wedi'u hategu gan ein nod cyffredin i sicrhau gwasanaethau gofal cymdeithasol o ansawdd uchel; ac i amddiffyn a hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles defnyddwyr gwasanaethau.

Egwyddor 5:

Byddwn yn agored ac yn dryloyw gyda'n gilydd.

Egwyddor 6:

Byddwn yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau a'n gwybodaeth a lle bo'n briodol byddwn yn rhannu gwybodaeth i wneud y mwyaf o'r effaith.

Bydd Llais yn partneru â'r Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth i gynnal bwrdd crwn ar ddyfodol gofal cymdeithasol yng Nghymru yn Sioe Frenhinol Cymru ddydd Mercher, 23 Gorffennaf 2025.

Bydd y digwyddiad yn canolbwyntio ar archwilio rôl hanfodol atal wrth gefnogi cymunedau gwledig gyda gofal a chymorth. Mae cyfranogwyr y bwrdd crwn yn cynnwys Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru ac amrywiaeth o sefydliadau a grwpiau cynrychioliadol sydd â diddordeb allweddol mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ardaloedd gwledig Cymru.

Cryfhau lleisiau pobl

Diwygio deintyddol yng Nghymru

Cyhoeddwyd ein [datganiad safbwynt ar fynediad at ddeintyddiaeth yng Nghymru ym mis Tachwedd 2024](#). Ers hynny, rydym wedi parhau i weithio gyda llunwyr polisi a darparwyr gwasanaethau i lywio a dylanwadu ar ddatblygiadau mewn deintyddiaeth yng Nghymru, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r heriau sylweddol y mae pobl yn eu hwynebu wrth gael gweld deintydd lle a phryd bynnag y mae ei angen arnynt.

Mae ein gweithgareddau wedi cynnwys:

- cynrychioli lleisiau pobl yn rheolaidd yng Ngrŵp Goruchwylio Strategol Diwygio Deintyddol Llywodraeth Cymru, sydd wedi'i sefydlu i oruchwylio diwygio deintyddol yng Nghymru. Ochr yn ochr â'n datganiad safbwynt, mae ein cyfranogiad yn y grŵp hwn wedi llywio'r [ymgyngoriad cyhoeddus diweddar ar ddiwygio gwasanaethau deintyddol cyffredinol y GIG yng Nghymru](#).
- codi ymwybyddiaeth ac annog pobl i ymateb yn uniongyrchol i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru
- trafodaethau parhaus gyda llunwyr polisi, cyrff cynrychioliadol, ac eraill ynghylch y cynigion

Ym mis Mehefin 2025, anfonwyd ein [hymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar ddiwygio gwasanaethau deintyddol cyffredinol yng Nghymru](#). Mae ein hymateb yn ei gwneud yn glir ein bod yn croesawu nod Llywodraeth Cymru i wella gwasanaethau deintyddol y GIG. Mae'r cynigion yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r hyn a glywn amlaf gan bobl, sef ei bod hi'n rhy anodd cael apwyntiad deintyddol y GIG.

Ond nid dim ond mynd trwy'r drws yw e. Mae pobl hefyd wedi dweud wrthym am broblemau hirhoedlog gydag anghydraddoldebau o ran mynediad, sut mae gwasanaethau'n cael eu cyfleu, a sut mae taliadau'n cael eu hesbonio. O'r hyn a welsom yn yr ymgynghoriad, mae'r cynigion yn cymryd rhai camau croesawgar ymlaen, yn enwedig i bobl heb ddeintydd rheolaidd y GIG.

Fel y nodir, credwn fod y cynigion hefyd yn arwain at risg o ganlyniadau anfwriadol, yn enwedig i bobl sydd eisoes â deintydd y GIG. Gallai ehangu mynediad arwain at golli parhad, perthnasoedd ac ymddiriedaeth, sy'n helpu i leihau pryder a chadw pobl yn ymgysylltu â'u hiechyd y geg.

Mae'n amlwg bod y newidiadau arfaethedig wedi'u hanelu at ddod â ffocws croesawgar ar atal a mynediad i blant a galluogi'r rhai sydd angen y driniaeth fwyaf i gael mynediad at ddeintyddiaeth y GIG.

Credwn y bydd angen camau gweithredu eraill o hyd i gau'r bylchau ledled Cymru rhwng y rhai sy'n gallu cael mynediad haws at ofal a'r rhai na allant. Os caiff gwelliannau eu cymhwyso'n gyfartal, ac nad ydynt yn cael eu cyd-fynd â chamau gweithredu ychwanegol, wedi'u targedu lle mae'r anghydraddoldeb ar ei fwyaf, gall pethau wella'n gyffredinol ond efallai na fyddant yn mynd i'r afael â gwahaniaethau annheg mewn mynediad o hyd.

Mae ein hymateb yn parhau i alw ar Lywodraeth Cymru i gasglu a defnyddio'r data a'r wybodaeth gywir i ddeall anghenion pobl am ofal deintyddol ledled Cymru yn well, sut mae'r anghenion hynny'n cael eu diwallu, a lle mae anghydraddoldeb – fel bod y dull cyffredinol o ymdrin â deintyddiaeth yn galluogi pawb sy'n byw yng Nghymru i gael y gofal deintyddol sydd ei angen arnynt.

Yr her nawr yw gwella mynediad heb golli'r hyn sy'n gweithio i rai pobl nawr. Er mwyn llwyddo, rhaid i'r system fod yn deg, yn gynhwysol, ac yn glir, o ran sut mae gofal yn cael ei gynnis a'i egluro.

Daeth ymgynghoriad Llywodraeth Cymru i ben ar 19 Mehefin 2025. Byddwn yn parhau i weithio gyda llunwyr polisi a darparwyr gwasanaethau i helpu i sbarduno gwelliant mewn gwasanaethau deintyddol yng Nghymru.

Gwranddo ar rieni: yr adolygiad annibynnol o Wasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Ar 15 Gorffennaf 2025, cyhoeddwyd yr [adolygiad annibynnol i wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol](#) ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Mae'r adroddiad yn ystyried yr hyn a rannwyd gennym gyda'r tîm adolygu annibynnol, ar ôl clywed gan dros 500 o bobl am eu profiadau o wasanaethau mamolaeth, a adlewyrchir yn ein hadroddiad '[Cael babi yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe](#)', a gyhoeddwyd ym mis Mai 2025.

Mae'r adolygiad annibynnol yn adleisio'r themâu allweddol a glywsom:

- Ansawdd gofal a chyfathrebu anghyson
- Diffyg cyfranogiad mewn penderfyniadau a chydsyniad gwybodus
- Cymorth ôl-enedigol gwael a rheoli poen
- Rhwystrau i deuluoedd lleiafrifoedd ethnig a phartneriaid geni
- Gofal anniogel a niwed y gellir ei osgoi
- Problemau diffyg staff a diwylliant staff
- Ymdrin â chwynion yn annigonol.

Rydym yn cefnogi 10 argymhelliad blaenoriaeth yr Adolygiad Annibynnol, sy'n cynnwys cefnogaeth gyflymach pan fydd angen help ar bobl, triniaeth fwy tosturiol, arweinyddiaeth gryfach, a sicrhau bod teuluoedd yn rhan o'u gofal.

Wrth edrych ymlaen, byddwn yn:

- Parhau i wrando ar deuluoedd a chwyddo eu lleisiau wrth wneud penderfyniadau
- Cynnal Partneriaeth Lleisiau Mamolaeth a Newyddenedigol Cymru newydd i helpu i lunio gwasanaethau
- Monitro sut mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu argymhellion yr adolygiad
- Gweithio gyda'r GIG a llunwyr polisi i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu'n genedlaethol, gan gynnwys gwneud newidiadau i system gwynion y GIG
- Cymryd rhan yn yr asesiad Cymru gyfan o wasanaethau mamolaeth a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Cyflwyno tystysgrifau colli baban yng Nghymru

I rai rhieni sydd wedi colli babi, gall tystysgrifau colli babi fod yn rhan bwysig o'u helpu i deimlo eu bod yn cael cefnogaeth yn ystod eu galar. Gall tystysgrif gydnabod colled rhiant, helpu i gydnabod poen rhiant, a gall helpu rhieni i deimlo eu bod yn cael eu clywed.

Mae cynllun sy'n darparu tystysgrifau – ar gais – i rieni y bu farw eu babi cyn 24 wythnos o feichiogrwydd wedi bod ar gael yn Lloegr ers mis Chwefror 2024.

Yng Nghymru, er bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithredu cynllun tebyg, a bod gwaith ar y gweill gyda chydweithwyr yn Lloegr i ddatblygu trefniadau ar gyfer Cymru, mae'r cynnydd wedi bod yn araf.

Er bod teuluoedd sy'n colli beichiogrwydd mewn unedau mamolaeth yng Nghymru yn cael cynnig blychau atgofion sy'n cynnwys tystysgrif geni, gwyddom, i rai rhieni sydd wedi colli plentyn, fod gallu cael tystysgrif ffurfiol yn bwysig iawn iddynt.

Rydym wedi codi ein pryderon gyda Llywodraeth Cymru ynghylch yr amser y mae'n ei gymryd i gyflwyno'r cynllun yng Nghymru a byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa gyda llunwyr polisi fel bod y cynllun hwn ar gael i bobl sy'n byw yng Nghymru cyn gynted â phosibl.

Gwasanaethau Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys: Canlyniad yr adolygiad barnwrol

Ar 19 Mehefin 2025, gwrthododd y llysoedd adolygiad barnwrol o'r penderfyniad a wnaed gan Bwyllgor Comisiynu ar y Cyd GIG Cymru (yn gweithredu ar ran y 7 bwrdd iechyd yng Nghymru) i ailstrwythuro'r Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS).

Roedd y penderfyniad yn ymwneud â'r cynigion i uno 2 o'r 4 canolfan ambiwlans awyr bresennol yn y Trallwng a Chaernarfon yn un safle yng Ngogledd Cymru. Nododd y sawl a gymerodd yr adolygiad barnwrol (a'r rhai a'i cefnogodd) eu pryderon bod y penderfyniad yn rhoi anfantais i'r rhai sy'n byw ger y canolfannau a fyddai'n cau o dan y cynigion.

Y brif ddadl a wnaed wrth gynnal yr adolygiad barnwrol oedd na ddylai'r Pwyllgor Comisiynu ar y Cyd fod wedi gwneud y penderfyniad heb ystyried costau penderfyniad a wnaed ar yr un pryd i ddatblygu cynnig comisiynu ar gyfer gwasanaeth gofal critigol pwrpasol ar y ffordd i weithredu mewn ardaloedd gwledig i gryfhau'r gwasanaeth cyffredinol i bobl sy'n byw yn yr ardaloedd hynny.

Dadleuodd y Pwyllgor Comisiynu ar y Cyd fod hwn yn gynnig ar wahân nad oedd ei angen i wneud y penderfyniad i ailstrwythuro'r Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys yn dderbyniol. Derbyniodd y Barnwr ddadl y Pwyllgor Comisiynu ar y Cyd, yn ogystal â gwrthod y dadleuon bod gofynion ymgynghori a dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus wedi'u torri.

Wrth ddod i'w farn, fe wnaeth y barnwr hefyd:

- Egluro “*Waeth beth fo'r label i'w roi arno, roedd y broses ymgysylltu, mewn gwirionedd, yn gyfystyr ag ymgynghoriad.*” Yn ymarferol, mae hyn yn golygu, beth bynnag y'i gelwir, os yw proses ymgysylltu â'r cyhoedd yn debyg i ymgynghoriad, y bydd yn cael ei phrofi fel un yn y llys.
- Ymdriniodd â rôl Llais, gan gydnabod bod y Pwyllgor Comisiynu ar y Cyd wedi dangos ei fod wedi rhoi sylw dyledus i sylwadau Llais (gan nodi'r cam pellach o ymgysylltu â'r cyhoedd a gymerwyd ymlaen mewn ymateb i'n pryderon) a daeth i'r casgliad bod “*Llais wedi gwneud sylwadau cynhwysfawr drwy gydol y broses cyn gwneud y penderfyniad.*” Nid oedd dim byd o sylwedd ar ôl i'w ddweud nad oedd eisoes wedi'i ddweud. Ni fyddai grym eu heiriolaeth wedi'i gryfhau trwy ailadrodd gwaeth pa ddogfennaeth neu ddeunydd pellach a ddarparwyd iddynt.”

Rydym yn deall bod y dyfarniad yn destun cais i apelio. Byddwn yn siarad â'r Pwyllgor Comisiynu ar y Cyd am ei gynlluniau i symud ymlaen unwaith y bydd y safbwynt ar apêl bosibl yn hysbys.

Adolygu ein ffyrdd o weithio a'n heffaith

Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd: Sesiwn Craffu Cyffredinol Llais

Cynhaliodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd sesiwn graffu cyffredinol ar Llais yn ei gyfarfod ar 25 Mehefin 2025.

Yn ogystal â darparu [cyflwyniad ysgrifenedig](#) i'r Pwyllgor, mynychodd fi, ein Cadeirydd a'n 2 Gyfarwyddwr Strategol y sesiwn yn bersonol i ymateb i gwestiynau gan aelodau'r pwyllgor. Canolbwyntiodd y sesiwn ar rai themâu allweddol:

- Ein blaenoriaethau, gan gynnwys ein gweithgareddau codi ymwybyddiaeth
- Materion sy'n ymwneud â gwasanaethau'r GIG yng Nghymru
- Barn pobl am feddygaeth gyffredinol yng Nghymru
- Ein perthynas â'r GIG, awdurdodau lleol, a llunwyr polisi
- Materion sy'n ymwneud â gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru
- Proses gwynion y GIG 'Gweithio i Wella.'

Mae'r sesiwn ar gael i'w gwyllo yma [Senedd.tv - Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol - 25/06/2025](#)

Trefnu ein hunain i gyflawni – adolygu ein trefniadau Gweithredol

Fel rhan o'n hymrwymiad i ddatblygiad ein sefydliad, adolygodd ein Tîm Gweithredol a Thîm Arwain ein trefniadau arweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad o rolau a chyfrifoldebau ein Tîm Gweithredol a Thîm Arwain, yn ogystal â'n strwythurau cyfarfodydd corfforaethol.

Amlygodd y canfyddiadau ymgysylltiad cryf ond nododd hefyd yr angen am fformatau cyfarfodydd mwy effeithiol, rolau cliriach, a gwell dilyniant. Yn benodol, cytunodd Tîm Arwain, wrth fy nghefnogi fel Swyddog Cyfrifyddu, y dylai penderfyniadau allweddol orwedd gyda'r Tîm Gweithredol, wedi'u llywio a'u dylanwadu gan drafodaethau mwy strategol a gweithgaredd datblygu gan Dîm Arwain.

Mewn ymateb, rydym wedi cyflwyno strwythur diwygiedig gyda chyfarfodydd mwy ffocysedig, wedi'u halinio'n strategol a defnydd cliriach o weithgorau. Nod y newidiadau hyn yw cryfhau arweinyddiaeth, symleiddio llywodraethu, a chefnogi cyflawni ein hamcanion. Rydym hefyd yn datblygu rhaglen arweinyddiaeth ar gyfer 2025/26 i ymgorffori'r gwelliannau hyn a sicrhau bod ein trefniadau uwch arweinyddiaeth yn cefnogi cyflawni strategaeth a chynlluniau'r Bwrdd yn effeithiol.

Ymateb i ymgynghoriad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar ei God ymarfer ar gyfer gwasanaethau, swyddogaethau cyhoeddus a chymdeithasau

Ymatebodd Llais i ymgynghoriad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar newidiadau i'r Cod Ymarfer yn dilyn dyfarniad gan y Goruchaf Lys a eglurodd y diffiniad o ryw gyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel rhyw fiolegol adeg geni.

Er ein bod yn cydnabod yr eglurder y mae hyn yn ei ddwyn, fe wnaethom godi pryderon ynghylch y posibilrwydd o eithrio unigolion rhyngrywiol a'r goblygiadau ehangach i bobl draws a phobl an-ddeuaidd.

Roedd y pwyntiau allweddol yn ein hymateb yn cynnwys galwadau am:

- Canllawiau cliriach ar y gwahaniaeth rhwng rhyw fiolegol a hunaniaeth rhywedd i atal gwahaniaethu.
- Polisiâu a hyfforddiant cynhwysol i gefnogi unigolion traws, anneuaidd, ac amrywiol o ran rhywedd, yn enwedig mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cyngor penodol ar reoli gwasanaethau a chyfleusterau un rhyw yn deg.
- Ystyriaeth o effeithiau ar arferion gweithle, gan gynnwys adrodd ar gyflogau rhywedd a pholisiâu gweithredu cadarnhaol.
- Cefnogaeth bellach gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i helpu sefydliadau i lywio'r newidiadau hyn yn sensitif ac yn gyfreithlon.

Fe wnaethom bwysleisio pwysigrwydd cynnal urddas, diogelwch a thegwch wrth ddarparu gwasanaethau a chyflogaeth, ac annog y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i ddarparu enghreifftiau ymarferol a chanllawiau cynhwysol i gefnogi cydymffurfiaeth.

Gallwch weld ein hymateb llawn yma [Ymateb Llais i ymgynghoriad cod ymarfer y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Llais](#)